Cwis Llyfrau

Mae y ddau dîm ail-iaith a'r tîm iaith gyntaf drwyddo i rownd derfynol y cwis. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chi yn y rownd derfynol.

Ymweliadau

Cafodd yr Iau ymweliad gan actores a bardd yn ddiweddar. Bu Sue Jones-Davies draw yn cynnal gweithdy drama gyda Blwyddyn 5 a 6 ac fe ddaeth Iwan Llwyd draw i gynnal gweithdy barddoniaeth gyda blynyddoedd 4/5 a 6. Mwynhawyd y sesiynau yn fawr gan y plant.

Bu blwyddyn 2 mewn gweithdy Celf yng Nghanolfan y Celfyddydau hefyd. Bu'n brofiad gwych iddynt.

Urdd

Bu sawl gweithgaredd aelwyd yr Urdd o fewn yr ysgol. Mae ein diolch yn fawr i Mrs Vera Lloyd, Carwen Hughes a Rhian Evans, Nia Huw ac i Anwen Eleri am fod mor barod i ddod draw atom i ddifyrru'r plant am orig fach yn ystod y mis diwethaf. Roedd y plant wrth eu bodd yn eu cwmni.

Pasg hapus i bawb oddi wrth disgyblion a staff yr ysgol.